Cynllun Tymor

i Rieni Blynyddoedd 3,4,5 a 6

Dosbarthiadau Blwyddyn 3,4,5 a 6:

Mr Dyfan Jones (Y Gerddi)
JonesD106@hwbcymru.net

Miss Bethan Morris (Yr Onnen)
MorrisB27@hwbcymru.net

Mrs Manon Williams (Y Sgwar)
WilliamsM1666@hwbcymru.net

Miss Elliw Evans (Y Groes)
EvansE42@hwbcymru.net



Cymorthyddion dosbarth:

Miss Sharon Williams

Mr Dan James

Ms Tricia Davies

Miss Eleri Evans

***CPA*:**

Mrs Heulwen Williams

Mrs Delyth Dempsey-Jones

Miss Lowri Jarvis

Tymor yr Haf 2025

Pethau pwysig i'w cofio:

Gwaith Cartref- Ar ddiwedd wythnos bydd llyfr darllen Cymraeg neu Saesneg yn cael ei yrru adref bob yn ail wythnos ac fe'i ddisgwylir yn ôl ar fore dydd Llun os gwelwch yn dda. Bydd cyfle i'r plant ddewis a chwblhau gwahanol weithgareddau o'r daflen syniadau tymhorol yn waith cartref. Bydd eich plentyn yn derbyn llyfr Gwaith Cartref (Llyfr Prysur) i gofnodi unrhyw waith neu ymarfer sgiliau. Mae croeso hefyd i'ch plentyn ysgrifennu cofnod o unrhyw weithgareddau hwyl rydych wedi ei wneud dros y penwythnos! Gallwch helpu eich plentyn drwy ei annog i ddarllen i chi/gyda chi yn gyson a thrafod cynnwys y llyfr, ymarfer/dysgu tablau lluosi yn drwyadl ac ymarfer sillafu. Diolch ☺

Ymarfer Corff- Gofynnwn i'r plant ddod i'r ysgol yn eu gwisg ymarfer corff sef siorts glas/du, crys T/polo yr ysgol a pymps neu trainers addas, er mwyn osgoi defnyddio'r ystafelloedd newid. Pan fo'r tywydd yn oer caiff y plant wisgo trowsus loncian/leggings. ***Cofiwch roi enw ar bob darn o ddilledyn os gwelwch yn dda.*** Bydd mwy o wybodaeth am wersi nofio i ddilyn.

<u>Bydd gwersi ar</u>
Mr Jones - Dydd Llun
Miss Morris - Dydd Mercher
Mrs Williams - Dydd Mercher
Miss Evans - Dydd Mercher

Cinio Ysgol- Darperir cinio i blant yn y neuadd. Dewiswch brydau bwyd eich plentyn gan ddefnyddio'r ddewislen Cypad **cyn 8 o'r gloch yn y bore**. Nodwch y gellir archebu prydau bwyd hyd at chwe wythnos ymlaen llaw.

Bwyd bore a diod- Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau fod gan eich plentyn fyr-bryd iachus e.e. ffrwyth, iogwrt i amser egwyl. Ni chaniateir creision, fferins, cacennau na siocled ar y buarth. Gall eich plentyn ddod a photel o ddŵr i'r ystafell ddosbarth os y dymunir. Sylwch na chaniateir diodydd pefriog a diodydd egni yn yr ysgol. Gellir prynnu ffrwythau o'r stondin ffrwythau am 20c.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad

Ein thema y tymor hwn yw: Hwyl yr wyl

Y Pedwar Diben

Mae'r Cwricwlwm newydd yn rhoi y sylfaen sydd ei angen ar blant i lwyddo mewn byd sy'n newid. Mae'r cwricwlwm wedi newid i helpu pobl ifanc i fod yn fwy hyblyg, eu cymell i barhau i ddysgu sgiliau newydd wrth i fywyd a'r byd newid o'u cwmpas. Y nod yw cefnogi plant a phobl ifanc i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol
- yn unigolion iach, hyderus

I wybod mwy am y Cwricwlwm i Gymru, sganiwch y côd uchod

Y Chwe Maes Dysgu:

Iechyd a Lles:
Rhown sylw ar ddatblygu lles meddyliol gyda ffocws ar gynllun 'Fy Meddwl Hapus' a datblygu ein sgiliau meddwl tuag at wneud dewisiadau a chymryd risgiau. Sgiliau athletau a thenis fydd cynnwys ein gwersi Addysg Gorfforol y tymor hwn.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:
Ceisiwn hybu ddatblygiad iaith y plant drwy amrywiaeth eang o weithgareddau llafar, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Cawn gyfle i greu cylchgrawn ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol sydd yn Wrecsam dros yr haf, yn ogystal ag ysgrifennu llythyr i'r cyngor am ddatblygiad safle yr ysgol. Datblygwn sgiliau llafar drwy ddefnyddio cynllun 'Drilio Disglair' i gloywi patrymau iaith, a chymryd rhan ym mhrosiect 'Llafar Gwlad' gydag ysgolion eraill ar draws Gymru.

Mathemateg a Rhifedd:
Byddwn yn canolbwyntio ar waith rhif trwy ddatblygu ymhellach sgiliau lluosi a rhannu, a rhifau negyddol. Byddwn hefyd yn datblygu sgiliau mesur drwy edrych ar fesur mas a phwysau. Manteisiwn ar bob cyfle i'r plant weithio'n ymarferol, yn drawsgwricwlaidd a thrwy datrys problemau. Byddwn yn cymharu data gwledydd yn ein wythnos ryngwladol.

Y Celfyddydau Mynegiannol:
Byddwn yn cynllunio ac yn modelu i greu animeiddiad yn defnyddio ap 'Zing Studio'. Byddwn yn defnyddio 'Garageband' ac offerynnau amrywiol i gyfansoddi anthem newydd, ac yn dysgu a pherfformio Samba fel band dosbarth. Cawn gyfle hefyd i ddod yn gyfarwydd a waith celf o'n gwledydd unigol yn yr wythnos ryngwladol.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg:
Byddwn yn ennyn chwilfrydedd y plant a meithrin eu sgiliau i ddysgu'n annibynnol drwy amrywiaeth o weithgareddau, ymchwiliadau ac arbrofion cyffrous ar y corff. Byddwn yn cymhwyso'r sgiliau fframwaith cymhwysedd digidol drwy ddatblygu ein sgiliau i ddefnyddio apiau animeiddio a darganfod ffynonellau ymchwiliol arlein.

Dyniaethau:
Byddwn yn dathlu llwyddiant tim merched Cymru yn Ewro 2025 drwy wythnos ryngwladol lle ceir pob dosbarth wlad arbennig i ymchwilio. Cawn gyfle i ddarganfod digwyddiadau hanesyddol sy'n gysylltiedig a'n gwledydd ac adnabod unrhyw ddathliadau crefyddol sydd ganddynt.

If you would like any further information, please e-mail your child's class teacher.